



**COFNODION CYFARFOD CYFFREDINOL ARBENNIG WEA CYMRU A  
GYNHALIWYD DDYDD MERCHER 22 GORFFENNAF 2015 YNG NGHAMPWS  
CANOL Y DDINAS, COLEG CAERDYDD A'R FRO, FFORDD DUMBALLS,  
CAERDYDD CF10 5BF**

**Presennol:**

**Swyddogion:** Rob Humphreys (Cadeirydd), Maggi Dawson (Prif Swyddog Gweithredol), Gerry Jenson (Is-gadeirydd), Stephen Thomas (Clerc y Cyngor).

**Aelodau unigol:** David Ashman, Mark Baines, Terry Bishop, Gareth Cork, Cath Dawkes, Christopher Franks, Tracy Garnett, Jeremy Gass, Adele Gatt, Elaine Gwynne, Cath Hicks, June Jeremy, Lynda Jones, Jenni Jones-Annetts, Matthew Lloyd, David MacManus, Sharon Reader, Martyn Reed, Sonia Reynolds, Dafydd Rhys, Toni Schiavone, Katrina Taylor, Peter Townend, Ceri Williams.

**Aelodau unigol a chynrychiolwyr Canghennau:** Cathy Clark (Coed Duon ac Oakdale), Derek Edwards (Uned 10 Port Talbot), Phil Elias (Llanelli), Ceinwen Statter (Merthyr Tudful).

**Cynrychiolwyr Canghennau, Fforymau Dysgwyr neu Sefydliadau Cysylltiedig:** Julie Cook (Wales TUC Cymru), Helen Murphy (Fforwm y Dysgwyr Caerffili), Mary Newman (Cangen Dysgu Cymunedol Byd-eang).

**Yn bresennol:** Huw Baker (Archwiliwr, Btp Associates), Kelly Edwards (Swyddog Uwch Polisi ac Ymchwil), Mark Isherwood (Darpar Brif Weithredwr), Sion Aled Owen (Cyfieithydd ar y Pryd), Trevor Summerlin (Tiwtor).

**Ymddiheuriadau:**

Janet Bailey (a pp. Cangen Llangynidr), Paul Charlton, Christine Cockroft, Jeremy Comerford, Ian Cuthbertson, Desmond Davies, Nigel Davies, Viv Davies, Bella Decroix, David Elis-Williams, Joe England, June Estebanez, Tom Forbes, Christine Franks, Christina Gallagher, Michael Gallagher, Nomitha Gallagher, David Girdler, Jonathan Goddard, John Graystone (Cadeirydd, Bwrdd Cysgodol), Alison Hill (Is-gadeirydd), John Hurley, Lyn Hurley, Jayne Ireland, Rob Larkins, Sue Leslie, Nicolas Morgan, Annie O'Brien, Tim Owen, Valmai Owen, Jon Parry, Graham Price, Anne Reardon-James, Susan Roberts, Rebecca Rumbul, Cllr. Ken Stevens (CBS Conwy), Nick Taylor, Derek Thomas, Emllyn Thomas, Marilyn Thomas (pp. Cangen Caerffili), Jan Tiley, Heather Wilbourne, Huw Williams (43).

**1. Croeso a sylwadau rhagarweiniol**

Croesawodd Rob Humphreys, Cadeirydd WEA Cymru, bawb i'r Cyfarfod Cyffredinol Arbennig (CCA) a mynegodd ei bleser o gael ein gwahodd i adeilad newydd Coleg

Caerdydd a'r Fro. Derbyniwyd ymddiheuriadau gan 43 o aelodau a chefnogwyr (fel a nodwyd uchod).

Aeth y Cadeirydd yn ei flaen gan nodi bod y CCA wedi ei gynnull mewn modd priodol yn unol â chyfansoddiad WEA Cymru, a'i fod â chworwm. Roedd angen ethol cyfrifwyr o blith yr aelodau oedd yn bresennol, ar gyfer cyfrif pleidleisiau: etholwyd Mark Baines a Matthew Lloyd yn briodol i'r rolau hynny. Yn ychwanegol, cafwyd pleidlais o blaid rhoi amod o Reol 23 o'r neilltu sef cynnal pleidlais gudd, gan, yn hytrach, bleidleisio drwy ddangos papurau pleidleisio yn gyhoeddus. Roedd y papurau hyn wedi eu dosbarthu i'r rhai oedd â hawl i bleidleisio wrth gofrestru, cyn y cyfarfod.

Yn olaf, eglurodd Rob Humphreys bod angen 75% o gymeradwyaeth er mwyn pasio'r ddau Gynnig Arbennig o flaen y CCA, oherwydd eu natur. Roedd hi'n ofynnol cael mwyafrif syml er mwyn mabwysiadu'r Cynnig Cyffredin a'r eitem agenda ar y Rheolau Sefydlog, Rheolau a Gweithdrefnau. Roedd rhai aelodau, er eu bod yn absennol, wedi cymryd y cyfle i bleidleisio drwy ddirprwy o flaenllaw, a byddai'r Clerc yn cyfeirio at y rhai hynny ar yr amser priodol.

## **2. WEA Cymru a Choleg Cymunedol YMCA Cymru – y cefndir i'r uniad**

Siaradodd Rob Humphreys am bwysigrwydd yr eitemau o flaen y cyfarfod, a oedd yn ceisio adeiladu ar lwyddiant y ddau sefydliad gan ddefnyddio'r cyfle o uniad i greu llwyfan ar gyfer dyfodol sicr i ddysgu oedolion yn y gymuned yng Nghymru. Yna croesawodd a chyflwynodd Mark Isherwood, Darpar Brif Weithredwr y sefydliad newydd, oedd i gymryd yr awennau ar 1 Awst, a siaradodd am y gwerthoedd a rennir sy'n deillio o 250 o flynyddoedd o brofiad gan y ddau sefydliad etifeddol. Roedd Coleg Cymunedol YMCA Cymru wedi pleidleisio'n unfrydol am y cynigion yn eu cynulliad cyfwerth yr wythnos flaenorol. Roedd yr uniad yn gyfle i siapio addysg oedolion yng Nghymru ac i ddylanwadu ar Lywodraeth Cymru ar ei bwysigrwydd. Gadawodd y cyfarfod ar yr adeg yma, i gymeradwyaeth gyffredinol.

Yna cyflwynodd Rob Humphreys y tri chynnis allweddol mewn perthynas â'r uniad arfaethedig rhwng WEA Cymru a Choleg Cymunedol YMCA Cymru. Roedd y rhain yn llunio'r dilyniant angenrheidiol i'r bleidlais yn y CCB a gynhaliwyd yn Harlech ym mis Ebrill 2015, pan gafwyd 63 pleidlais o blaid yr uniad a 2 bleidlais yn erbyn. Roedd Cyngor WEA Cymru yn ymwybodol bod rhai cynigion yn cynrychioli atebion dros dro, a fyddai angen eu diwygio ar ôl yr uniad. I'r perwyl hwn, gwnaethpwyd ymrwymiad i gynnal adolygiad, a fyddai'n cynnwys ymgynghoriad gydag aelodau, rhanddeiliaid a phartneriaid ar gyfansoddiad y sefydliad newydd. Byddai'r aelodau'n cymryd rhan llawn yn hynny drwy Fforymau Rhanbarthol a dulliau eraill, gan arwain at CCB yn y Gwanwyn 2016 a fyddai'n ystyried Erthyglau Cwmni a Rheolau Sefydlog diwygiedig ac enw elusennol newydd i'r corff unedig.

## **3. Cynigion**

Roedd tri chynnis gerbron y cyfarfod – dau Gynnig Arbennig, ac un Cynnig Cyffredin.

### ***i) Cynnig Arbennig 1***

***Bod enw'r Cwmni yn newid i WEA YMCA CC Cymru, a bod y cyfryw gynnis yn dod i rym ar 31 Gorffennaf 2015 yn amodol ar:***

- ***Dderbyn pob caniatâd angenrheidiol (os o gwbl) i fabwysiadu'r erthyglau cwmni newydd gan Gomisiwn Elusennau Cymru a Lloegr; a***
- ***Chwblhau trosglwyddo busnes ac asedau Coleg Cymunedol YMCA Cymru Cyfyngedig i'r Cwmni i ddod i rym ar 1 Awst 2015.***

Cynigiwyd hyn gan Chris Franks ar ran Cyngor WEA Cymru, a'i eilio gan Sonia Reynolds. Dywedodd Chris Franks nad oedd wedi rhagweld ail broses uno o fewn dwy flynedd, ond roedd wedi dod yn glir i'r Cyngor a'r Bwrdd Cysgodol y byddai'r ddau sefydliad cyn hir yn gweithredu ar ddiffyg os na fyddai hyn yn digwydd. Roedd aelodau'r Cyngor hefyd yn hollol ymwybodol o'r angen i gadw traddodiadau democrataidd, gyda'r bwriad o gryfhau Fforymau Rhanbarthol yn y cyfnod oedd i ddod.

Gofynnodd Tracy Garnett am eglurhad p'un ai fyddai enw'r cwmni yn un parhaol. Atebodd Rob Humphreys na fyddai, ac y byddai trafodaeth ar y gyfundrefn enwau yn ystod yr adolygiad. Roedd y Cyngor a'r Bwrdd Rheoli wedi cytuno y dylai'r ddau frand sy'n bodoli barhau mewn defnydd bob dydd tan i ganlyniadau'r adolygiad ddod yn weithredol, ac yn yr interim dim ond enw'r cwmni cyfreithiol fyddai'n newid. Sicrhawyd Peter Townend mai dyfais gyfreithiol yn unig oedd hyn: fel tiwtor roedd yn dymuno nodi bod llawer o'u ddysgwyr ddim yn ddynton, a bod llawer ohonynt yn dramorwyr.

Y bleidlais ar Gynnig Arbennig 1 – gan gynnwys pleidleisiau a dderbyniwyd drwy ddirprwy - oedd:

**65 o blaid  
1 yn erbyn  
1 ymataliad**

-----

**ii) Cynnig Arbennig 2**

***Bod y rheoliadau a fynegir yn y ddogfen a gynhyrchwyd i'r cyfarfod ac, at ddiben adnabod, a lofnodwyd gan gadeirydd y cyfarfod yn cael eu mabwysiadu fel erthyglau cymdeithasiad y Cwmni i ddirprwyo ar gyfer holl erthyglau cymdeithasiad presennol y Cwmni gan ddod i rym o 1 Awst 2015, yn amodol ar:***

- (a) dderbyn pob caniatâd angenrheidiol (os o gwbl) i fabwysiadu erthyglau cymdeithasiad newydd y sefydliad gan Gomisiwn Elusennol Cymru a Lloegr; a***
- (b) chwblhau'r Trosglwyddiad (yn y ffordd fod y term o'r fath yn cael ei ddiffinio ym mhenderfyniad rhif 3 isod) i ddod i rym ar 1 Awst 2015.***

Cynigiwyd hyn gan Toni Schiavone ar ran Cyngor WEA Cymru, a'i eilio gan Jenni Jones-Annetts. Er nad oedd yr Erthyglau Cwmni y mwyaf ysgogol o ddogfennau, roedd Erthygl 10.6 o'r fersiwn gerbron y cyfarfod wedi darparu cyfle i'r holl aelodau gymryd rhan mewn adolygiad trwyadl o'u cynnwys, er mwyn sicrhau strwythur yn y tymor canolig a fyddai'n briodol i'r sefydliad newydd. Y bleidlais ar Gynnig Arbennig 2 – gan gynnwys pleidleisiau a dderbyniwyd drwy ddirprwy - oedd:

**66 o blaid  
0 yn erbyn  
0 ymataliad**

[Derbyniwyd y gellid gwneud mân newidiadau i'r ddogfennaeth, os yn angenrheidiol a gyda chytundeb y Cadeirydd, ar yr amod na fyddent yn newid telerau materol ac ysbryd y dogfennau a ddosbarthwyd.]

-----

**iii) Cynnig Cyffredin 3**

**Nodwyd y byddai derbyniad o drosglwyddiad o'r fath:**

- (a) yn unol â ac wedi ei ganiatâu gan amcanion y Cwmni, fel a nodir yn erthyglau'r Cwmni (fel a fabwysiadir yn unol â chynnig arbennig rhif 2 uchod); a**  
**(b) wedi ei ganiatâu gan bwerau'r Cwmni, fel a nodir yn erthyglau'r Cwmni (fel a fabwysiadir yn unol â chynnig arbennig rhif 2 uchod),**

**AC FELLY Y PENDERFYNNIR BOD trosglwyddo i'r Cwmni y fenter, eiddo ac asedau (neu unrhyw ran ohonynt) o Goleg Cymunedol YMCA Cymru Cyfyngedig ar y fath delerau ag y gellir eu cytuno gan Gyngor y Cwmni (y "Trosglwyddiad") YN CAEL EU CYMERADWYO at ddibenion adran 190 o Ddeddf Cwmnïau 2006 ac fel arall i ddod i rym ar 1 Awst 2015, yn amodol ar:-**

- (i) benderfyniad y Cwmni i basio'r cynnig arbennig i newid ei enw i WEA YMCA CC Cymru i ddod i rym ar 31 Gorffennaf 2015; ac**  
**(ii) y Cwmni yn cael y fath ganiatâd a ellir bod yn ofynnol (os o gwbl) i'r fath drosglwyddiad gan Gomisiwn Elusennau Cymru a Lloegr.**

Cynigiwyd gan Jerry Genson ar ran Cyngor WEA Cymru, a'i eilio gan David MacManus. Roedd cyfarfodydd ffurfiol ynghylch yr uniad ond wedi cychwyn o ddirif ym mis Mehefin 2014, ac roedd y manteision i ddysgwyr wedi bod ar frig meddyliau'r ddwy ochr yn ystod y trafodaethau. O ystyried natur yr uniad, roedd Coleg Cymunedol YMCA Cymru yn cael ei ddiddymu, ac adlewyrchwyd hyn yng ngeiriad y Cynnig Cyffredinol a'r ddogfen Cytundeb Trosglwyddo Busnes manwl a gytunwyd gan y ddau sefydliad.

Y bleidlais ar Gynnig Cyffredin 3 – gan gynnwys pleidleisiau a dderbyniwyd drwy ddirprwy - oedd:

**67 o blaid  
0 yn erbyn  
0 ymataliad**

**4. Mabwysiadu Rheolau Sefydlog, Rheolau a Gweithdrefnau WEA YMCA CC Cymru**

Esboniodd Toni Schiavone bod y rhain wedi eu trafod yn fanwl gan y Cyngor a'r bwrdd Cysgodol. Roedd rhai o'r darpariaethau yn addefedig dros dro er mwyn 'mynd drwy'r porth uno'. Tra bod ganddo gwestiynau ei hun mewn perthynas â manylion cynrychiolaeth ddemocrataidd y sefydliad newydd, nid nawr oedd yr amser i'w codi ond yn yr adolygiad arfaethedig, pan y gobeithiai y byddai pawb yn yr ystafell ac eraill yn lleisio'u barn. Symudodd at fabwysiadu'r ddogfen yn ffurfiol, ac eiliwyd hyn gan Jenni Jones-Annetts.

Cynigiodd Peter Townsend welliant i Gymal 22, pwynt 3 o'r ddogfen: roedd hyn mewn perthynas â llywodraethwyr y myfyrwyr (dysgwyr) ar Gyngor WEA YMCA CC Cymru.

Mynegodd deimlad y credai bod eraill yn y sefydliad yn ei rannu sef bod angen cynrychiolaeth ddaearyddol decach mewn corff Cymru gyfan o'r fath, nad oedd hyd yma wedi cael amser i gael ei ymgorffori yn ei ffurf cyfredol fel WEA Cymru. Felly cynigiodd yn ffurfiol greu trydedd sedd i ddysgwyr ar y Cyngor, yn benodol ar gyfer dysgwyr o Ogledd Cymru. Eiliwyd hyn gan Terry Bishop. Siaradodd Sonia Reynolds yn erbyn y gwelliant, ar y sail mai'r adolygiad arfaethedig oedd y lle priodol ar gyfer ystyriaethau o'r fath. Mynegodd Jeremy Gass ddymuniad am wybodaeth ar ehangder daearyddol yr 16 llywodraethwr a benodwyd – 5 ohonynt o Ogledd Cymru, gyda'r 4 sedd oedd yn weddill (o 20) heb eu hethol eto. Pleidleisiwyd ar y gwelliant, a'r canlyniad oedd: 4 o blaid, 34 yn erbyn, a 4 ymataliad. Felly aeth y gwelliant i'r gwellt, er bod y pwynt a wnaed yn hollol briodol mewn cyswllt â'r adolygiad rheolaeth.

Yn dilyn cafwyd pleidlais ar fabwysiadu'r Rheolau Sefydlog, Rheolau a Gweithdrefnau a ddsbarthwyd, a'r canlyniad oedd:

**41 o blaid**  
**0 yn erbyn**  
**1 ymataliad**

#### **5. Adroddiad Blynyddol a Datganiadau Ariannol WEA Cymru am y flwyddyn a ddiweddodd ar 31 Gorffennaf 2014**

Esboniodd Jeremy Gass, fel cadeirydd y Pwyllgor Cyllid a Phwrpasau Cyffredinol, yr oedi a ddigwyddodd wrth gwblhau'r ddogfen hon naill ochr a'r llall i'r CCB yn Harlech ym mis Ebrill 2015. Roedd hyn oherwydd yr angen i gymhwyso egwyddorion cyfrifon uniad yn dilyn yr uno rhwng CAG De Cymru a Coleg Harlech CAG Gogledd Cymru (CHWEAN), a'r cymhlethdod ychwanegol o gyfnodau cyfrifo gwahanol – gan gynnwys un o 17 mis. Nododd y gweddill a wnaed yn y flwyddyn, y fantolen gref a'r datganiad llif arian iach, a chynigiodd eu derbyn a'u mabwysiadu (eiliwyd gan Chris Franks).

Yna siaradodd Huw Baker am y set gyflawn o ddatganiadau ariannol oedd ar gael i'w harchwilio, a llongyfarchodd y Tîm Cyllid ar ei waith o ystyried nad oedd cyn aelodau o staff cyllid CHWEAN yno i gynorthwyo yn y broses. Roedd cyfarfodydd diweddar o'r pwyllgor Cyllid a Phwrpasau Cyffredinol a'r Pwyllgor Archwilio a Rheolaeth Corfforaethol wedi archwilio'r ddogfen yn fanwl iawn, a roedd yn fodlon ei fod yn cynrychioli adlewyrchiad teg a gwir o'r flwyddyn hyd at 31 Gorffennaf 2014. Gofynnodd Jenni Jones-Annetts pam fod lleihad sylweddol yn yr incwm gan Ganghennau. Atebodd Mark Baines bod hyn oherwydd bod rhai wedi bod yn araf yn rhoi eu cyfrifon blynyddol i'r swyddfa ganolog, ac ychwanegodd Huw Baker o ystyried mai cyfansymiau cymharol fychan oedd dan sylw nad oedd yn fater perthnasol i waith yr archwilwyr. Cafwyd pleidlais unfrydol (42) o blaid derbyn yr Adroddiad Blynyddol a'r Datganiadau Ariannol.

#### **6. Cynnydd o ran cyrraedd Targedau yng Nghynllun Strategol WEA Cymru 2014-17**

Darparodd Maggi Dawson gyflwyniad PowerPoint ar y cynnydd hwn, gan ragfynegi ei sylwadau gyda'r ffaith fod y ddau sefydliad etifeddol i gadw eu cynlluniau strategol mewn lle am un flwyddyn ac i gael cynllun ar y cyd ar ôl hynny. Esboniodd sut yr oedd WEA Cymru

wedi ymuno gydag eraill i ddylanwadu ar fframwaith newydd Llywodraeth Cymru ar ddysgu oedolion yn y gymuned oedd yn ddisgwylidig yn ddiweddarach yn y flwyddyn, ac oedd yn rhan o'r cyfarfodydd bwrdd crwn i ddylanwadu ar fanifestos ar gyfer etholiadau'r Cynulliad Cenedlaethol ym mis Mai 2016. Dangoswyd data ar amddifadedd: ystyriwyd bod ein gwaith gyda lleiafrifoedd ethnig o ansawdd da. Er bod statws parhaus categori ariannol B gyda Llywodraeth Cymru yn ddangosydd cadarnhaol, roedd dibynnu ar 82% o'r cyllid oddi wrth Llywodraeth Cymru yn dal i fod yn her, a hefyd byddai Llywodraeth Cymru yn cwestiynu cyfradd ein heffaith fwyfwy.

## **7. Fforymau rhanbarthol a'u rôl yn strwythur ddemocrataidd WEA YMCA CC Cymru yn y dyfodol**

Roedd y Cyngor wedi gofyn am sesiwn ryngweithiol i drafod y mater hwn ac i geisio ffyrdd o ail-fywiogi'r strwythurau hyn yn y sefydliad unedig newydd. Felly rhannwyd y mynychwyr i dri grŵp gweithdy, lle cafwyd mewnbynau ar sut i ail-fywiogi'r fforymau ac ategu eu dylanwad o fewn y sefydliad. Yn dilyn 30 munud o drafodaeth cafwyd adborth byr mewn casgliad o'r cyfarfod llawn, pan wnaeth pob grŵp un pwynt allweddol:

- Dylid nodi diben y Fforymau Rhanbarthol yn fwy clir, drwy dosbarthu cylch gorchwyl diwygiedig;
- A oedd haen ranbarthol yn wirioneddol angenrheidiol yn nhermau 'perchnogaeth' o'r Sefydliad?;
- Roedd angen i'r Fforymau Rhanbarthol fod yn llwybr mwy effeithiol ar gyfer cyfathrebu dwy ffordd, yn hytrach na dim ond un ffordd.

## **8. Sylwadau i Gloi**

Yn ei chyfarfod ymadawol cymerodd Maggi Dawson y cyfle i ddiolch i dri pherson oedd wedi cadeirio'r sefydliad yn ystod ei hwyth mlynedd wrth y llyw yn CAG De Cymru ac yna WEA Cymru. Cyflwynwyd rodd i Jeremy Gass i ddangos gwerthfawrogiad am ei fewnbwn a'i amynedd yn ystod y broses uno gyntaf. Yna diolchwyd i Rob Humphreys am ymgymryd â rôl y Cadeirydd a bennwyd iddo'n wreiddiol pan oedd Leighton Andrews yn Weinidog, ac am aros ymlaen drwy'r ail uniad. Gwnaeth Gerry Jenson sylw bod ei amharodrwydd cychwynnol i fod ar y Bwrdd Cysgodol gwreiddiol wedi ei osod o'r neilltu pan glywodd y newyddion mai Rob Humphreys fyddai'n cadeirio'r broses, oherwydd gwyddai am ei weledigaeth a'i ymrwymiad i gyflawni tasgau o'r fath. Yn yr un modd roedd ei arweiniad strategol wedi bod yn amlwg yn yr uniad newydd gyda Choleg Cymunedol YMCA Cymru. Cyflwynwyd rhoddion iddo ar ran y staff a'r llywodraethwyr.

Yn ei dro talodd Rob Humphreys deyrnged i'r rhai oedd wedi cyfrannu at ganlyniadau'r diwrnod. Diolchodd yn arbennig a llongyfarchodd Maggi Dawson am yr hyn a gyflawnwyd ganddi, a'i hymddeoliad agos, wrth iddi drosglwyddo 'ffiol werthfawr' CAG o'i orffennol i'r dyfodol: roedd wedi bod yn bleser ac yn anrhydedd i weithio gyda hi. Yna cyflwynodd Gerry Jenson arwydd o'u gwerthfawrogiad i Maggi Dawson ar ran aelodau'r Cyngor.